# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Presiding Officer's office, 4th floor – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 23 Medi 2014** |
| Amser: | **08.30 – 08.40** |

## Cofnodion: MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Bydd y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Atgoffodd y Llywydd y Gweinidog y dylai cyhoeddiadau pwysig ar bolisi'r Llywodraeth gael eu gwneud yn y Siambr yn gyntaf.

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu’r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 1 Hydref 2014**

- Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â Deddfau’r Cynulliad

**Dydd Mercher 15 Hydref 2014**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad mewn egwyddor ar 16 Medi i gyfeirio'r Bil Cynllunio (Cymru) i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'w drafod yng Nghyfnod 1, a chytunwyd ar 30 Ionawr 2015 fel y dyddiad cau i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar Gyfnod 1 a 27 Mawrth 2015 fel dyddiad ar gyfer cwblhau trafodion Pwyllgor Cyfnod 2.

**UNRHYW FATER ARALL**

Trafododd y Rheolwyr Busnes Gwestiynau Llefarwyr yn sgil eu cyflwyno'r wythnos diwethaf, gan gytuno i gadw'r fformat newydd dan sylw dros yr wythnosau nesaf.